



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale
University Health Board



BRO MORGANNWG



ynys saff
safe island



De Cymru
Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd
Police and Crime Commissioner
South Wales

National
Probation
Service



Adroddiad Blynyddol Strategaeth Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2023-28 Cynllun Gweithredu 2023-2028

GWELEDIGAETH: Mae gan bobl sy'n byw, yn gweithio, yn astudio ac yn ymweld â Chaerdydd a Bro i fyw bywydau cadarnhaol ac annibynnol heb gael eu heffeithio gan drais a cham-driniaeth.

AIMS:



PREPARE

Gwella'r gwaith o gynllunio a chomisiynu gwasanaethau VAWDASV yn strategol trwy agwedd partneriaeth mwy cydlynol ledled y rhanbarth.



PURSUE

Delio â throseddwr VAWDASV trwy wella sut mae gwybodaeth yn cael ei rhannu mewn gwasanaethau a'r defnydd o bwerau cyfreithiol i ymyrryd ac euogfarnu



PREVENT

Delio'n rhagweithiol ag agweddau ac ymddygiadau negyddol sydd â'r potensial o arwain at VAWDASV, gan gyd-nabod bod hyn yn 'fater i bawb'.



PROTECT

Gwella ymateb a chymorth amlasiantaethol i bob dioddefwr VAWDASV a'u plant, ni waeth lefelau risg neu anghenion



SUPPORT

Sicrhau bod gwasanaethau arloesol a hyblyg sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gael i fodloni anghenion dioddefwyr sy'n profi ffurtau ar VAWDASV.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg

Mae yn ein dwylo ni

Datblygwyd y cynllun gweithredu hwn gyda mewnbwn goroeswyr a phartneriaid yn ystod digwyddiadau ymgynghori a chyfarfodydd un i un. Mae wedi cael ei ddylanwadu gan yrwyr deddfwriaethol a pholisi allweddol cyfredol gan gynnwys Glasbrint Llywodraeth Cymru a'r cynllun cyflawni lefel uchel sy'n cyd-fynd ag ef.

Mae'r cynllun gweithredu hwn yn ddogfen fyw a bydd yn cael ei ddiweddarau wrth i ofynion Llywodraeth Cymru, deddfwriaeth, gweithgareddau penodol cenedlaethol neu leol newydd gael eu nodi.

CYFLWYNIAD				
Ymrwymiad	Cerrig milltir / Camau Gweithredu	Tystiolaeth o Gyflawniad	Amserlen	Arwain
Byddwn yn cynorthwyo Llywodraeth Cymru i weithredu camau sy'n deillio o'r dull a'r ffrydiau gwaith Glasbrint	Sicrhau ymgysylltiad â rhwydweithiau a fforymau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol fel Rhwydwaith Ymchwil VAWDASV Cymru, Grŵp Arweinyddiaeth YSA, Grŵp Economi'r Nos Caerdydd ac ati.	Cofnod presenoldeb o gyfarfodydd a chyfraniadau.	Mawrth 2026	Tîm Rhanbarthol
	Sicrhau cynrychiolaeth mewn ffrydiau gwaith a/neu rannu gwybodaeth a materion gyda Chynghorwyr Rhanbarthol eraill	Cofnod presenoldeb o gyfarfodydd a chyfraniadau	Mawrth 2026	Tîm Rhanbarthol
Byddwn yn sicrhau bod y strategaeth hon yn cyd-fynd â chynlluniau polisi a gweithredu cysylltiedig perthnasol, wrth i'r rhain gael eu hadolygu a'u hadnewyddu	Sefydlu strwythur llywodraethu sy'n adlewyrchu blaenoriaethau strategol ac sy'n creu llinellau atebolrwydd priodol rhwng grwpiau ac unigolion	Mae strwythur llywodraethu gyda llinellau atebolrwydd clir ar gael ac yn weithredol gyda chofnodion yn cael eu cadw'n ganolog	Medi 2023	Tîm Rhanbarthol
	Sicrhau bod VAWDASV yn cael ei adlewyrchu mewn strwythurau llywodraethu priodol eraill e.e. diogelwch cymunedol, diogelu, iechyd a gofal cymdeithasol ac ati	Mae VAWDASV yn cael ei flaenoriaethu ar agendâu ac mae cofnodion yn cael eu cadw	Medi 2023	Tîm Rhanbarthol
	Gweithio gyda Bwrdd Cydweithredol De Cymru i sicrhau aliniad â blaenoriaethau strategol ar draws ôl troed De Cymru	Cofnod presenoldeb o gyfarfodydd a chyfraniadau	Parhaus	Tîm Rhanbarthol
Byddwn yn helpu i ddatblygu a gweithredu cynllun gweithredu Dinas ar gyfer CEDAW	Gweithio gyda chydweithwyr yn GPAD i ddatblygu a gweithredu cynllun gweithredu	Cynllun gweithredu wedi'i ddatblygu a'i rannu	Hydref 2023	Tîm Rhanbarthol a GPAD
	Diweddarau'r Cabinet yn ôl y gofyn	Adroddiadau wedi'u drafftio a'u cyflwyno	Parhaus	Tîm Rhanbarthol a'r Tîm AD

PARATOI				
Ymrwymiad	Cerrig milltir / Camau Gweithredu	Tystiolaeth o Gyflawniad	Amserlen	Arwain
Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid ar draws y rhanbarth i wella'r broses o gasglu a dadansoddi data yn barhaus	Sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i gytuno ar fathau o ddata, categorïau a pha mor aml y cesglir data gyda phartneriaid yn y rhanbarth	Dangosfwrdd Data wedi'i gynhyrchu (agenda safonol ar y Grŵp Gweithredol)	Rhag 2023	Tîm Rhanbarthol
	Mapio a dadansoddi gweithgareddau gydag ysgolion (Spectrum, Operation Encompass, NTF) i sicrhau ein bod yn targedu ein hadnoddau yn y ffordd orau	Ysgolion wedi'u blaenoriaethu ar gyfer ymyriadau yn dibynnu ar angen	Medi 2025	Tîm Rhanbarthol a'r Grŵp Gweithredol
	Dadansoddi data bob chwarter / yn flynyddol i nodi tueddiadau, cryfderau, bylchau, lleihau dyblygu, eglurder ynghylch yr hyn y defnyddir data ar ei gyfer a sut mae'n ychwanegu at y darlun VAWDASV cyffredinol. Adrodd i'r Grŵp Gweithredol VAWDASV (fel eitem agenda safonol)	Ymgynghoriad / adolygiad llenyddiaeth wedi'i gwblhau. Argymhellion wedi'u cyflwyno i'r Grŵp Gweithredol	Mawrth 2028	Tîm Rhanbarthol
	Defnyddio data sydd ar gael i asesu perfformiad a llywio comisiynu yn y dyfodol	Comisiynu wedi'i danategu gan ddadansoddi anghenion	Mawrth 2028	Tîm Rhanbarthol
Byddwn yn sicrhau bod profiadau byw goroeswyr yn llywio datblygiad a darpariaeth gwasanaeth parhaus	Mapio gweithgareddau ymgysylltu a chyfranogiad goroeswyr yn y rhanbarth	Rhestr o gyfleoedd ymgysylltu â goroeswyr yn y rhanbarth	Mawrth 2025	Tîm Rhanbarthol
	Datblygu model ar gyfer ymgysylltu rhanbarthol i ddylanwadu ar gynllunio a chyflawni blaenoriaethau strategol allweddol	Fframwaith ar gyfer ymgysylltu â goroeswyr wedi'i ddatblygu	Mawrth 2025	Tîm Rhanbarthol / Darparwyr
	Gwahodd cynrychiolydd/cynrychiolwyr goroeswyr i gael eu cynnwys yn y strwythur llywodraethu	Cofnod presenoldeb yn y cofnodion	Mawrth 2025	Tîm Rhanbarthol / Darparwyr
Byddwn yn parhau i ddysgu gan arbenigwyr	Sicrhau ein bod yn ymgysylltu â'r holl ymchwil berthnasol sy'n effeithio ar VAWDASV ac yn ystyried a yw'n addas i'r rhanbarth	Dogfennau ymchwil perthnasol wedi'u rhannu gyda'r Grŵp Gweithredol ac wedi'u nodi ar gofnodion	Mawrth 2028	Pob partner
	Parhau i wahodd ymchwilwyr a siaradwyr nodedig i siarad mewn digwyddiadau ac yn ystod 16 Diwrnod o Weithredu (Rhuban Gwyn)	Gwahoddiadau i fynychu sgysiau / digwyddiadau wedi'u dosbarthu	Mawrth 2028	Pob partner
Byddwn yn cefnogi gwaith Glasbrint Llywodraeth Cymru i sicrhau bod goroeswyr o bob oed yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt	Sicrhau presenoldeb mewn Ffrydiau Gwaith Pobl Hŷn a Phlant a Phobl Ifanc	Cofnod presenoldeb o gyfarfodydd a chyfraniadau	Mawrth 2026	Tîm Rhanbarthol
	Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid i gytuno a gweithredu unrhyw argymhellion sy'n deillio o weithgarwch y Ffrwd	Cofnodion llif gwaith, sesiynau briffio ac adroddiadau	Mawrth 2026	Pob partner

PARATOI				
Ymrwymiad	Cerrig milltir / Camau Gweithredu	Tystiolaeth o Gyflawniad	Amserlen	Arwain
	Waith			
Byddwn yn ceisio deall yr anghenion a'r rhwystrau penodol i gymorth y mae goroeswyr anabl yn eu profi er mwyn gwella mynediad	Ymgysylltu â goroeswyr a grwpiau cymorth anabledd perthnasol i gasglu gwybodaeth am anghenion cymorth a rhwystrau i fynediad	Gwahoddiadau i ddigwyddiadau ymgynghori, arolygon a chofnodion cyfarfodydd	Rhag 2026	Tîm Rhanbarthol / Darparwyr
	Gweithio gyda'r holl bartneriaid i ystyried sut i oresgyn rhwystrau a nodwyd i sicrhau mynediad cyfartal at wasanaethau i ddioddefwyr anabl	Crynodeb o ymgysylltu â dioddefwyr gan nodi materion; cofnodion cyfarfod	Medi 2027	Pob partner
Byddwn yn parhau i dreialu Prosiect Cedar i ddioddefwyr gwrywaidd i lywio'r broses o gaffael gwasanaeth pwrpasol yn ffurfiol	Cynnal adolygiad cynhwysfawr o ddarpariaeth y peilot a cheisio adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth	Adroddiad wedi'i gynhyrchu a manyleb gwasanaeth newydd wedi'i greu	Medi 2024	Timau Grant Cymorth Tai
	Paratoi ar gyfer comisiynu ffurfiol a gweithredu'r gwasanaeth newydd	Dogfennau ffurfiol wedi'u cynnwys gyda gwahoddiad i dendro ar Gwerthwchi Gymru	Rhag 2024	Timau Grant Cymorth Tai
Byddwn yn cefnogi gweithrediad rhanbarthol y cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) i hyrwyddo dealltwriaeth plant a phobl ifanc o gydsyniad, perthnasoedd iach a pharchus	Sicrhau bod negeseuon i ysgolion mor gyson a chywir â phosibl drwy geisio adborth o'r adroddiadau Gweithgareddau Rhanbarthol	; adborth gan ddisgyblion, athrawon, ysgolion a rhieni	Mawrth 2028	Tîm Rhanbarthol

DILYN				
Ymrwymiad	Cerrig milltir / Camau Gweithredu	Tystiolaeth o Gyflawniad	Amserlen	Arwain
Byddwn yn gwella ein dealltwriaeth o drais rhywiol i ddatblygu a gwella ein hymateb	Casglu'r holl ddata sydd ar gael ledled y DU, ledled Cymru ac yn rhanbarthol i ganfod galw, tueddiadau a chanlyniadau	Cipio data; dadansoddi; adroddiadau wedi'u dosbarthu; cofnodion cyfarfod	Mawrth 2025	Tîm Rhanbarthol, Heddlu De Cymru / Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Byddwn yn cefnogi partneriaid i weithredu'r pwerau newydd sy'n deillio o newidiadau deddfwriaethol	Helpu partneriaid yn y System Cyfiawnder Troseddol i ehangu ymwybyddiaeth o bwerau newydd a sut i'w gweithredu	Digwyddiadau ymgysylltu / hyfforddi; deunyddiau cyhoeddusrwydd; adroddiadau ar ddefnyddio pwerau newydd	Mawrth 2028	Tîm Rhanbarthol, Heddlu De Cymru / Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Byddwn yn codi ymwybyddiaeth o newidiadau deddfwriaethol i annog adrodd, cyfeirio a chymorth priodol	Cynhyrchu deunyddiau cyhoeddusrwydd a chynnal digwyddiadau ac ymgyrchoedd sy'n cynnwys y cyhoedd i dynnu sylw at newidiadau pryd bynnag y bo modd	Deunyddiau wedi'u cynhyrchu a'u dosbarthu; nifer o ddigwyddiadau ac ymgyrchoedd wedi'u cynnal	Mawrth 2028	Heddlu De Cymru / Comisiynydd Heddlu a Throseddu / Tîm Rhanbarthol
	Rhannu gwybodaeth berthnasol gyda phartneriaid gan gynnwys deunyddiau cyhoeddusrwydd i'w rhannu â staff a defnyddwyr gwasanaeth	Deunyddiau wedi'u cynhyrchu a'u dosbarthu; nifer o ddigwyddiadau ac ymgyrchoedd wedi'u cynnal	Mawrth 2028	Heddlu De Cymru / Comisiynydd Heddlu a Throseddu / Tîm Rhanbarthol
Byddwn yn parhau i roi atebolrwydd am gam-drin ar y rhai sy'n achosi niwed	Helpu Llywodraeth Cymru i weithredu dull system gyfan ar gyfer mynd i'r afael â chyflawniad	Canran uwch o gollfarnau, defnyddio gorchmynion a phwerau plismona eraill.	Mawrth 2026	Llywodraeth Cymru
	Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i nodi, datblygu a gweithredu ymyriadau effeithiol sy'n galluogi pawb mewn cymdeithas i herio agweddau, credoau ac ymddygiadau misogynistaidd	Digwyddiadau ymgysylltu; dadansoddi; adroddiadau wedi'u dosbarthu; cynllun gweithredu ag unrhyw ymyriadau;	Mawrth 2026	Llywodraeth Cymru

DILYN				
Ymrwymiad	Cerrig milltir / Camau Gweithredu	Tystiolaeth o Gyflawniad	Amserlen	Arwain
Byddwn yn mynd i'r afael â chyflawni drwy gefnogi ffrwd waith Glasbrint perthnasol Llywodraeth Cymru	Cynorthwyo gyda mapio darpariaeth a nodi arfer gorau	Cofnodion cyfarfod a map o'r ddarpariaeth	Mawrth 2026	Llywodraeth Cymru
	Gan weithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill, ystyried sut i lenwi bylchau yn y ddarpariaeth	Cofnodion cyfarfodydd; briffiau ac adroddiadau	Mawrth 2026	Llywodraeth Cymru
Byddwn yn archwilio rhaglenni achrededig a seiliedig ar dystiolaeth sy'n mynd i'r afael ag ymddygiadau niweidiol sy'n gysylltiedig â phob math o VAWDASV ac sy'n cefnogi ymdrechion i sicrhau ymyriadau	Darparu amrywiaeth o gyfleoedd addysgol a chymorth i'r rhai sydd mewn perygl o gyflawni camdriniaeth a thrais, gan sicrhau bod unrhyw raglenni a gomisiynir wedi'u llywio gan seicoleg, yn seiliedig ar dystiolaeth a gyda mynediad at wasanaeth cymorth integredig i ddiodefwr	Gwahoddiadau i dendr; cytundebau grant, contractau; cofnodion cyfarfod	Mawrth 2028	Heddlu De Cymru / Comisiynydd Heddlu a Throsedd / Tîm Rhanbarthol
	Sicrhau bod rhaglenni a gomisiynir yn sicrhau ansawdd ac wedi derbyn achrediadau perthnasol	Copiâu o dystysgrifau achredu	Mawrth 2028	Heddlu De Cymru / Comisiynydd Heddlu a Throsedd / Tîm Rhanbarthol

ATAL				
Ymrwymiad	Cerrig milltir / Camau Gweithredu	Tystiolaeth o Gyflawniad	Amserlen	Arwain
Byddwn yn annog mwy o ysgolion i gofleidio'r dull gweithredu ysgol gyfan o ymdrin â VAWDASV	Hyrwyddo'r dull gweithredu ysgol gyfan ar bob cyfle	Cofnod o ymgysylltu	Mawrth 2028	Cydweithwyr Tîm Rhanbarthol / Addysg
	Ystyried ffyrdd o gefnogi ysgolion drwy ymgyrchoedd, hyfforddiant a llwybrau at wasanaethau arbenigol	Cofnod o gyfarfodydd a chyfraniadau; deunyddiau cyhoeddusrwydd wedi'u darparu	Mawrth 2028	Cydweithwyr Tîm Rhanbarthol / Addysg
Byddwn yn parhau i weithio gyda phrifysgolion a cholegau i gryfhau eu hymateb i fyfyrwyr sy'n profi VAWDASV	Parhau i gynnal cyfarfodydd rheolaidd i rannu arfer da a nodi materion	Cofnodion cyfarfodydd a chofnodion presenoldeb	Mawrth 2028	Tîm Rhanbarthol
	Ystyried ffyrdd o gefnogi myfyrwyr drwy ymgyrchoedd, hyfforddiant a llwybrau at wasanaethau arbenigol	Cofnod o gyfarfodydd a chyfraniadau; deunyddiau cyhoeddusrwydd wedi'u darparu	Mawrth 2028	Tîm Rhanbarthol
Byddwn yn defnyddio pob cyfle i herio agweddau sy'n beio dioddefwyr a chodi ymwybyddiaeth o wasanaethau cymorth	Cefnogi darpariaeth Llywodraeth Cymru o Raglenni Ymyrraeth Gwylwyr	Hyrwyddo argaeledd hyfforddiant	Mawrth 2026	Pob partner
	Sicrhau trwy ddarparu hyfforddiant a digwyddiadau, diwylliant lle mae'r her o feio dioddefwyr yn cael ei derbyn a'i hargymell	Cofnodion hyfforddi; adborth ac arolygon pwrpasol	Mawrth 2028	Pob partner
Byddwn yn parhau i sicrhau bod y gweithlu'n fedrus i nodi, cyfeirio a chefnogi dioddefwyr a chyflawnwyr	Cyflwyno hyfforddiant i grwpiau perthnasol yn unol â'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol (FfHC)	Cofnodion presenoldeb a hyfforddiant	Mawrth 2028	Tîm Rhanbarthol / Iechyd / Ymddiriedolaeth GIG Felindre
	Cynnal asesiad anghenion hyfforddi'r gweithlu	Dogfen asesu hyfforddiant	Medi 2023	Tîm Rhanbarthol
	Datblygu a darparu hyfforddiant ychwanegol i ymarferwyr fel rhan o'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol fel y nodwyd gan yr asesiad anghenion hyfforddi	Cynlluniau hyfforddiant	Mawrth 2028	Tîm Rhanbarthol / Iechyd / Ymddiriedolaeth GIG Felindre
	Sicrhau bod darpariaeth hyfforddiant yn cynnwys modiwl ar ymateb i gyflawnwyr	Cynlluniau hyfforddiant	Mawrth 2028	Tîm Rhanbarthol / Respect / Iechyd / Ymddiriedolaeth

ATAL				
Ymrwymiad	Cerrig milltir / Camau Gweithredu	Tystiolaeth o Gyflawniad	Amserlen	Arwain
				GIG Felindre
	Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu hyfforddiant i weithwyr proffesiynol sy'n canolbwyntio ar y mater penodol o gam-drin pobl hŷn, ac sy'n galluogi ymarferwyr i ddeall y cyfyngiadau o gysyniadu cam-drin pobl hŷn fel 'cam-drin yr henoed', er enghraifft, ymddygiad gorfodol.	Cynlluniau hyfforddiant	Mawrth 2028	Llywodraeth Cymru, Tîm Rhanbarthol / Iechyd / Ymddiriedolaeth GIG Felindre
Byddwn yn cefnogi partneriaid i barhau i ailymgeisio ar gyfer y statws Rhuban Gwyn	Parhau i ddatblygu calendr blynyddol o ddigwyddiadau cyhoeddus o gwmpas yr 16 diwrnod o weithredu i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched	Calendr wedi'i gyhoeddi a'i ddosbarthu'n eang	Mawrth 2028	Tîm Rhanbarthol
	Gweithio gyda phartneriaid i gyflwyno ceisiadau a chynnal gweithgareddau a monitro parhaus	Achrediadau wedi'u cyflawni	Mawrth 2028	Tîm Rhanbarthol / partneriaid

DIOGELU				
Ymrwymiad	Cerrig milltir / Camau Gweithredu	Tystiolaeth o Gyflawniad	Amserlen	Arwain
Byddwn yn gweithredu'r argymhellion cytunedig o'r adolygiad o Gynadleddau Amlasiantaeth Asesu Risg (CAAR)	Gweithredu Grŵp Llywio CAAR trosfwaol ar gyfer y rhanbarth	Cofnodion cyfarfodydd a chofnodion presenoldeb	Medi 2023	Tîm Rhanbarthol
	Gweithio i sicrhau cymorth Cydlynnydd CAAR traws-ffiniol a chyflenwi dros absenoldeb ar gyfer rolau	Disgrifiadau swydd, cytundeb lefel gwasanaeth	Rhag 2023	Diogelwch Cymunedol BM / Gwasanaethau Oedolion Cyngor Caerdydd
	Datblygu protocol clir ar gyfer integreiddio a gweithredu trafodaethau dyddiol gyda chyfarfodydd a rheolwyr CAAR	Canllawiau a chyfarwyddiadau gweithredol wedi'u dosbarthu i'r holl bartneriaid	Mawrth 2024	Tîm Rhanbarthol a'r holl bartneriaid
	Gwella monitro data CAAR a chynhyrchu adroddiadau rheolaidd i'r Grŵp Llywio CAAR rhanbarthol	Adroddiadau chwarterol wedi'u cynhyrchu a'u dosbarthu; Cyflwyniadau i Fwydau Diogel	Mawrth 2024	Cydlynwyr CAAR
Byddwn yn cryfhau ein hymateb diogelu i gamdriniaeth ar sail anrhydedd ac anffurfio organau cenedlu benywod trwy ddatblygu llwybrau cymorth clir	Datblygu llwybr cymorth ar gyfer pob achos o AOCB a nodwyd ac a amheuir	Datblygu a dosbarthu llwybrau clir; atgyfeiriadau wedi'u derbyn; adborth darparwr	Mawrth 2025	Partneriaid MASH
	Datblygu llwybr cymorth ar gyfer pob achos o gamdriniaeth ar sail anrhydedd a nodwyd ac a amheuir	Datblygu a dosbarthu llwybrau clir; atgyfeiriadau wedi'u derbyn; adborth darparwr	Mawrth 2025	Partneriaid MASH
Byddwn yn parhau i sicrhau bod plant sy'n destun diogelu yn cael cymorth arbenigol i wella o'r gamdriniaeth a'r trawma y maent wedi'u dioddef	Parhau i gyflwyno'r model Diogel a Gyda'n Gilydd i staff iechyd a gofal cymdeithasol perthnasol	Cofnodion o hyfforddiant staff; adborth staff	Mawrth 2028	Gwasanaethau Plant
	Sicrhau bod llwybrau cadarn at gymorth arbenigol gan y Gwasanaethau Cymorth Cynnar	Datblygu a dosbarthu llwybrau clir; atgyfeiriadau wedi'u derbyn; adborth darparwr	Rhag 2025	Tîm Rhanbarthol / Gwasanaethau Plant
Byddwn yn gweithio gyda'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol i weithredu argymhellion o'r adroddiad Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (YAGPRh).	Cynorthwyo yn ôl yr angen gydag unrhyw weithgaredd a nodwyd gan y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol	Cofnodion Cyfarfod	Mawrth 2024	Pob partner
Byddwn yn cynorthwyo partneriaid i ddiweddarau	Helpu Llywodraeth Cymru i ddeall graddau'r aflonyddu yn y gweithle ac i gefnogi'r gwaith atal	Crynodeb o ymgysylltu gan nodi materion; cofnodion	Mawrth 2026	Pob partner

DIOGELU				
Ymrwymiad	Cerrig milltir / Camau Gweithredu	Tystiolaeth o Gyflawniad	Amserlen	Arwain
polisiau'r gweithle i gynnwys aflonyddu rhywiol yn y gweithle	ac ymateb effeithiol	cyfarfod, adroddiadau wedi'u cyflwyno		
	Sicrhau bod holl bolisiau gweithle partneriaid yn cael eu diweddarau i gynnwys aflonyddu yn y gweithle	Cofnod o bolisiau'r gweithle, fersiynau a dyddiadau adnewyddu	Mawrth 2026	Pob partner
Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i weithredu camau sy'n deillio o ffrwd waith Glasbriant aflonyddu yn y gweithle	Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i nodi deddfwriaeth berthnasol mewn perthynas ag aflonyddu rhywiol mewn mannau cyhoeddus a datblygu dull cyffredin i'r heddlu ac asiantaethau eraill i'w gorfodi	Gwahoddiadau i ymgynghori; arolygon; dadansoddi; adroddiadau wedi'u dosbarthu	Mawrth 2026	Llywodraeth Cymru
	Cefnogi Llywodraeth Cymru i ddatblygu ymgyrchoedd cyhoeddus, gan ganolbwyntio'n benodol ar atal aflonyddu rhywiol mewn mannau cyhoeddus	Deunydd ymgyrchu; negeseuon cyfryngau cymdeithasol a chyrhaeddiad	Mawrth 2026	Llywodraeth Cymru
	Cefnogi Llywodraeth Cymru a phartneriaid rhanbarthol i ddeall beth mae "diogelwch" mewn mannau cyhoeddus yn ei olygu i wahanol grwpiau drwy gynnal ymgynghoriad rhyngdoriadol â goroeswyr a'r cyhoedd	Gwahoddiadau i ymgynghori; arolygon; dadansoddi; adroddiadau wedi'u dosbarthu	Mawrth 2026	Llywodraeth Cymru
Byddwn yn sicrhau bod mwy o fannau diogel ledled Caerdydd, gan gynnwys menywod a merched wrth eu creu	Gweithio gyda chydweithwyr yn yr adran Addysg i ymgysylltu â menywod a merched i adolygu argaeledd	Crynodeb o ymgysylltu gan nodi materion; cofnodion cyfarfod; cynigion	Rhag 2023	Tîm Rhanbarthol / Addysg
	Cynyddu'r ddarpariaeth o Fannau Diogel gan gynnwys Hybiau'r Cyngor a Llyfrgelloedd	Cynnwys ar fap cynllun ac ap Mannau Diogel	Mawrth 2024	Tîm Rhanbarthol

CYMORTH				
Ymrwymiad	Cerrig milltir / Camau Gweithredu	Tystiolaeth o Gyflawniad	Amserlen	Arwain
Byddwn yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn parhau i gael mynediad at gymorth arbenigol sy'n briodol i'w hoedran	Sicrhau bod darpariaeth gyfatebol yn rhan o unrhyw waith ail-gomisiynu gwasanaethau yn y dyfodol	Gwahoddiadau i dendr; cytundebau grant, contractau; cofnodion cyfarfod	Medi 2025	Tîm Rhanbarthol / Arweinwyr GCT
Byddwn yn casglu data a phrofiadau cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig er mwyn deall eu hanghenion yn well	Ymgysylltu â goroeswyr a grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig perthnasol i gasglu gwybodaeth am anghenion cymorth a rhwystrau i fynediad	Gwahoddiadau i ddigwyddiadau ymgynghori, arolygon a chofnodion cyfarfodydd	Medi 2025	Tîm Rhanbarthol / Arweinwyr GCT
	Gweithio gyda'r holl bartneriaid i ystyried sut i oresgyn rhwystrau a nodwyd i sicrhau mynediad cyfartal at wasanaethau i ddioddefwyr o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig	Crynodeb o ymgysylltu â dioddefwyr gan nodi materion; cofnodion cyfarfod	Medi 2025	Tîm Rhanbarthol / Arweinwyr GCT
Byddwn yn gweithredu argymhellion gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Anghenion Cymhleth	Adolygu'r holl ddata sydd ar gael ar y galw cyfredol, siwrneiau, rhwystrau a mewnbwn darparwyr a goroeswyr i ddylunio dull newydd o gefnogi'r garfan hon	Gweithgaredd ymgysylltu; dadansoddi ac adroddiadau wedi'u dosbarthu	Medi 2025	Tîm Rhanbarthol / Arweinwyr GCT
	Gan ystyried unrhyw arfer gorau a nodwyd, gweithredu model cymorth pwrpasol ar gyfer menywod y nodwyd bod ganddynt anghenion cymhleth	Manyleb gwasanaeth, adroddiadau monitro	Medi 2025	Tîm Rhanbarthol / Arweinwyr GCT
Byddwn yn adolygu'r elfennau llwybr llety, cymorth cymunedol ac atal o'r ddarpariaeth gwasanaethau er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i ddiwallu anghenion	Adolygu'r holl ddata sydd ar gael ar y galw cyfredol, siwrneiau, rhwystrau a mewnbwn darparwyr a goroeswyr	Gweithgaredd ymgysylltu; dadansoddi ac adroddiadau wedi'u dosbarthu	Medi 2025	Tîm Rhanbarthol / Arweinwyr GCT
	Datblygu cynnig ar gyfer defnyddio darpariaeth lloches yn y dyfodol gan gynnwys llwybr y cytunwyd arno drwy gymorth	Gwahoddiadau i dendr; cytundebau grant, contractau; cofnodion cyfarfod	Medi 2025	Tîm Rhanbarthol / Arweinwyr GCT